**Rhif: WG51012**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o’r Ymatebion i’r Ymgynghoriad

# Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant

Ionawr 2025

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 978-1-83715-009-0 ISBN Digidol

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion cyswllt**

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Diwylliant
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno

e-bost: Diwylliant@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r Crynodeb hwn o'r Ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030 | LLYW.CYMRU

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English at: Draft Priorities for Culture in Wales 2024 to 2030 | GOV.WALES

## Cynnwys


Crynodeb 5

Cefndir 5

Yr Ymgynghoriad 5

Terminoleg 5

Methodoleg 6

Trosolwg o ddata meintiol 6

Demograffeg 6

Oedran 7

Gweithdai ar yr ymgynghoriad 7

Dosbarthiad daearyddol 8

Cymunedau amrywiol 8

Trosolwg o ddata meintiol 9

Beth ddywedoch chi wrthym ni 10

Blaenoriaeth 1: Mae diwylliant yn dod â ni ynghyd 10

Dyhead 1: Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol 11

Dyhead 2: Mae democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol yn ganolog i ddiwylliant yng Nghymru 13

Dyhead 3: Mae diwylliant yn mabwysiadu dull cynhwysol a chytbwys o ddehongli, coffáu a chyflwyno ein gorffennol 14

Dyhead 4: Mae diwylliant yn rhan annatod o greu lleoedd a llesiant cymunedol 15

Dyhead 5: Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc, ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gyfranogwyr ac arweinwyr diwylliannol 16

Dyhead 6: Mae diwylliant yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau 18

Dyheadau coll (Blaenoriaeth 1) 18

Sylwadau pellach (Blaenoriaeth 1) 19

Blaenoriaeth 2: Cenedl diwylliant 20

Dyhead 7: Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog 21

Dyhead 8: Mae llesiant diwylliannol wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y broses o lunio polisïau ledled Cymru 22

Dyhead 9: Mae ymgysylltu diwylliannol yn cefnogi llesiant unigolion a chymunedau 23

Dyhead 10: Bydd cyrff diwylliant a threftadaeth yn cydweithio mwy i fanteisio i'r eithaf ar botensial llawn eu timau arbenigol a'u casgliadau, a byddant yn gweithio gyda sectorau eraill i ystyried pŵer diwylliant, a manteisio arno 24

Dyhead 11: Mae diwylliant yn cefnogi twristiaeth; mae twristiaeth yn cefnogi diwylliant. Mae gan ddiwylliant broffil uchel yn y ffordd y caiff ein cenedl ei marchnata i ymwelwyr 26

Dyhead 12: Mae diwylliant wedi'i integreiddio yn y ffordd y mae Cymru'n sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau rhyngwladol 27

Dyhead 13: Codi proffil diwylliant yng Nghymru drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol 29

Dyheadau Coll (Blaenoriaeth 2) 30

Sylwadau Pellach (Blaenoriaeth 2) 30

Blaenoriaeth 3: Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy 31

Dyhead 14: Mae ein casgliadau a'n hasedau hanesyddol yn derbyn gofal, ac maent yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a sicrhau llesiant diwylliannol 32

Dyhead 15: Mae gan sefydliadau sy'n gyfrifol am ddiogelu a gofalu am ein casgliadau diwylliannol a'n hasedau hanesyddol ddulliau strategol i gydnabod eu harwyddocâd a'u casglu 33

Dyhead 16: Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn rhan annatod o stori'n gwlad – mae'n cael ei chofnodi, ei chefnogi i ffynnu, a'i rhannu ag eraill er budd cenedlaethau'r dyfodol 34

Dyhead 17: Mae arferion digidol da yn cefnogi ac yn gwella ein diwylliant 35

Dyhead 18: Mae gan ddiwylliant agwedd gydweithredol a hirdymor tuag at ymchwil a chasglu tystiolaeth 37

Dyhead 19: Mae'r sector diwylliant yng Nghymru yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli, gyda gweithlu proffesiynol a medrus 38

Dyhead 20: Mae'r sector diwylliant yn dangos arweinyddiaeth a chydweithio yn ei ddulliau gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy, meithrin cadernid, a mynd i'r afael â phob agwedd ar argyfyngau hinsawdd a natur 40

Dyheadau Coll (Blaenoriaeth 3) 42

Sylwadau Pellach (Blaenoriaeth 3) 42

Cwestiynau ychwanegol 43

Y Camau Nesaf 44

ATODIAD A – Ymatebwyr 45

Unigolion 45

Sefydliadau 46

# Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb thematig o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant.

# Cefndir

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn cynnwys ymrwymiad i *ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth yng Nghymru i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd.*

Yn ystod Gwanwyn 2022, fe wnaeth y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip ar y pryd, ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru ar y pryd drwy'r Cytundeb Cydweithio, nodi'r cwmpas a nodi ei bod yn cynnwys y sectorau canlynol:

- Y Celfyddydau
- Amgueddfeydd
- Llyfrgelloedd
- Archifau
- Yr amgylchedd hanesyddol.

# Yr Ymgynghoriad

Lansio cyfnod ymgynghori estynedig o bymtheg wythnos ar 23 Mai 2024.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn ar gyfer pobl ifanc, a chyflwyniad Iaith Arwyddion Prydain i'r ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru ac ar ffurf copi caled.

Mae'r adroddiad cryno hwn hefyd yn cofnodi ymatebion a ddarparwyd fel rhan o gyfres o ddigwyddiadau a gweithdai ymgynghori.

# Terminoleg

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r geiriau 'diwylliant' a 'sector diwylliant' fel termau sy'n cynnwys y sectorau celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifdai a'r sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Wrth gyflwyno a thrafod yr ymatebion, rydym yn defnyddio'r termau canlynol:

Mae 'mwyafrif' yn golygu 60% neu fwy o'r ymatebwyr.
Mae 'llawer' yn golygu rhwng 21% a 59% o'r ymatebwyr.
Mae 'nifer' yn golygu rhwng 11% ac 20% o'r ymatebwyr.
Mae 'rhai' yn golygu rhwng 6% a 10% o'r ymatebwyr.
Mae 'ychydig' yn golygu 5% neu fwy o'r ymatebwyr.

# Methodoleg

Dadansoddwyd a rhoddwyd ystyriaeth i'r holl ymatebion fel rhan o'r gwaith o ddrafftio'r adroddiad hwn.

Rhoddwyd cod unigryw i bob ymateb i'r ymgynghoriad. Fe ddefnyddiom ni ddadansoddiad thematig i archwilio'r data ansoddol. Fe wnaethom adolygu pob ymateb a nodi themâu cyffredin a/neu bwyntiau cysylltiedig ar draws yr holl ymatebion. Roedd hyn yn ein galluogi i nodi meysydd craidd lle'r oedd consensws, pryderon a blaenoriaethau ymysg ymatebwyr. Roedd y dull strwythuredig hwn yn ein galluogi i ddistyllu adborth cymhleth yn ôl themâu clir, gan gefnogi dealltwriaeth ddyfnach o'r materion a godwyd.

**Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ymatebion a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gamau gweithredu posibl a rhoi blaenoriaethau a dyheadau ar waith.**

# Trosolwg o ddata meintiol

Cafwyd cyfanswm o 376 ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y canlynol:

Ymatebion ar-lein gan ddefnyddio'r arolwg ymgynghori: 209
Ymatebion drwy e-bost (gan gynnwys ymatebion testun rhydd): 75
Ymatebion ar gopi caled: 92

O'r 376 o ymatebion i'r ymgynghoriad, daeth 262 ohonynt gan unigolion ac roedd 114 ohonynt gan sefydliadau. Pan nododd ymatebwyr eu bod yn gweithio i sefydliad diwylliannol ond nad oeddent yn nodi eu bod yn ymateb ar ran y sefydliad hwnnw, tybir eu bod yn ymateb yn bersonol.

Mae rhestr o'r ymatebwyr ar wahân i'r rheini a ofynnodd i fod yn ddienw i'w gweld yn Atodiad A. Gofynnodd 203 i'r ymatebwyr aros yn ddienw.

**Wrth gyflwyno data, cafodd yr ymatebion canrannol eu talgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. O bryd i'w gilydd, mae hyn wedi arwain at gynrychioliad gweledol o'r data sy'n uwch neu'n is na 100%.**

## Demograffeg

Fe ofynnom i ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r arolwg ar-lein roi gwybodaeth ddemograffig i ni er mwyn i ni allu asesu cyrhaeddiad yr ymgynghoriad. Mae'r data demograffig isod yn cynrychioli'r 262 o ymatebion a ddarparwyd gan unigolion. Gwrthododd rhai ymatebwyr ddarparu gwybodaeth ddemograffig, ac ni wnaeth pawb a ddarparodd wybodaeth ddemograffig ateb pob cwestiwn perthnasol.

## Oedran

Roedd yr ymatebwyr a roddodd wybodaeth ddemograffig yn cynrychioli ystod dda o grwpiau oedran:

| Cyfrifiad o'r ymatebion i'r fersiwn safonol | nifer | % |
|---|---|---|
| 16 i 24 | 3 | 1% |
| 25 i 34 | 25 | 9% |
| 35 i 44 | 27 | 10% |
| 45 i 54 | 28 | 11% |
| 55 i 64 | 31 | 12% |
| 65+ | 33 | 12% |
| Dim ateb | 41 | 16% |

| Cyfrifiad o'r ymatebion i'r fersiwn Pobl Ifanc | nifer | % |
|---|---|---|
| O dan 11 | 1 | 0% |
| 11 i 14 | 30 | 11% |
| 15 i 18 | 41 | 16% |
| 18 i 25 | 2 | 1% |

## Gweithdai ar yr ymgynghoriad

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, aethom ati i gynnal nifer o weithdai a chyfarfodydd. Nid yw nifer y cyfranwyr yn y digwyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu uchod.

Roedd ein hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc yn cynnwys y canlynol:

- Ysgol Glan Clwyd
- Grŵp ieuenctid EYST, Wrecsam
- Aelodau ifanc o grŵp Bloedd Amgueddfa Cymru
- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr bwrdd ieuenctid Theatr Clwyd
- Digwyddiad ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn Eisteddfod yr Urdd
- Gweithgaredd ar y cyd â Plant yng Nghymru, a oedd yn cynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb ac arolwg ar-lein.


Dyma rai o'r digwyddiadau ymgynghori eraill:

- Dau weithdy wyneb yn wyneb gyda phobl hŷn, gan gynnwys un gyda gwirfoddolwyr hŷn
- Gweithdy wyneb yn wyneb gyda phobl fyddar
- Gweithdy ar-lein gyda chynrychiolwyr o gymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- Gweithdai a chyfarfodydd gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn y sector.


Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r themâu a'r materion a godwyd yn y trafodaethau gweithdy.

## Dosbarthiad daearyddol

Mae'r ymatebion yn awgrymu bod yr ymgynghoriad wedi cyflawni dosbarthiad daearyddol da ar draws Cymru. O'i gymharu â phoblogaeth rhanbarthau Cymru, cafodd yr ymgynghoriad gyfran lai o ymatebion o Dde Cymru, a nifer uwch o ogledd Cymru a chanolbarth Cymru (ffynhonnell: Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi Cymru - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).




## Cymunedau amrywiol




** gan gynnwys cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor*

O'r rheini a ymatebodd, nododd 23 eu bod yn perthyn i fwy nag un o'r grwpiau neu'r cymunedau uchod.

Ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2023, mae ystadegau'n dangos bod 21% o bobl Cymru'n byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae data diweddar o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn datgelu bod ymgysylltu diwylliannol yn tueddu i fod yn is mewn ardaloedd mwy difreintiedig o Gymru ar draws pedwar o'r is-sectorau o fewn y cwmpas (amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a'r Celfyddydau), . Yng Nghymru yn 2021, roedd cyfran o 21% o'r boblogaeth yn anabl. Roedd 3% yn nodi bod ganddynt dueddfryd rhywiol LHDTC+, ac roedd tua 6% yn perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol.

Er nad yw'n gymhariaeth uniongyrchol, mae'r data hwn yn dangos, o'i gymharu â ffigurau Cymru gyfan, bod yr ymgynghoriad wedi cael cyfran lai o ymatebion gan gartrefi incwm isel (10%), grwpiau anabl (13%), a grwpiau ethnig lleiafrifol (5%) ond nifer uwch gan grwpiau LHDTC+ (11%).

## Trosolwg o ddata ansoddol

Mae'r mwyafrif yn cefnogi pob un o'r blaenoriaethau a'r dyheadau drafft.

Dyma rai o'r themâu cryf a gafodd eu hailadrodd ar draws **llawer** o'r ymatebion:

- Pryderon ynghylch y cyllid;
- Pwysigrwydd staff, arweinwyr a gwirfoddolwyr;
- Yr angen am gamau gweithredu clir ac i gynnydd cael ei fesur a'i ddadansoddi.

Dyma rai o'r themâu a oedd yn ymddangos mewn nifer o ymatebion:

- Pwysigrwydd mannau diwylliannol ffisegol lle gall pobl ddod at ei gilydd mewn mannau diogel ac addas i fwynhau diwylliant;
- Pwysigrwydd cyfleoedd digidol ac arloesi, ac eu bod wedi cael eu cydbwyso â'r angen i fod yn gynhwysol;
- Yr angen i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig unigryw;
- Diogelu sgiliau arbenigol a datblygu a chynnal y gweithlu.

Dyma rai o'r themâu a oedd yn ymddangos mewn **rhai** o'r ymatebion:

- Y cysylltiadau rhwng cyfranogiad diwylliannol a llesiant;
- Arwyddocâd creadigrwydd a gweithgarwch ar lawr gwlad fel blociau adeiladu hanfodol yn y sector diwylliant.


Dyma rai o'r themâu a oedd yn ymddangos mewn **ychydig** o'r ymatebion:

- Y buddion o gryfhau cysylltiadau rhwng diwylliant a'r diwydiannau creadigol a/neu chwaraeon.

# Beth ddywedoch chi wrthym ni

## Blaenoriaeth 1: Mae diwylliant yn dod â ni ynghyd

**C1: I ba raddau ydych chi’n cytuno y dylai’r flaenoriaeth hon fod yn rhan o’n blaenoriaethau ar gyfer diwylliant yng Nghymru? Rhowch sgôr o 1-5, gydag 1 yn golygu ‘anghytuno’n llwyr’ a 5 yn golygu ‘cytuno’n llwyr’.**




Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion (77%) yn cytuno neu’n cytuno’n llwyr â Blaenoriaeth 1.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Dylem bwysleisio’r disgwyliad y dylai sefydliadau y tu allan i’r sector diwylliant yng Nghymru hefyd fod yn gweithio tuag at gyflawni’r flaenoriaeth hon.
- Dylem ystyried cynnwys diffiniad o beth yw diwylliant, a dylai adlewyrchu diwylliant fel rhywbeth sy’n ddeinamig, yn rhagweithiol ac yn cael ei arwain gan bobl a chymunedau. Nid yw’n cael ei ddiffinio o reidrwydd gan asedau na sefydliadau proffesiynol.
- Dylem ystyried gwneud rhai newidiadau i eiriad y Flaenoriaeth, er enghraifft:
  - Pwysleisio ‘diwylliant Cymreig’ yn y geiriad;

- Mynegi lluosogrwydd drwy naill ai newid y gair 'diwylliant' i 'ddiwylliannau', neu ddatblygu'r teimlad y tu ôl i'r geiriad, er enghraifft drwy ei newid i 'gall edrych ar ddiwylliannau ddod â ni at ei gilydd';
- Gall newid y geiriad i 'gall diwylliant, ar y cyd ac ar wahân, ddod â ni at ein gilydd', gydag ychydig o ymatebion yn myfyrio ar newid geiriad y dyhead i gynnwys y gair 'gallwn';
- Ystyried sut y gallai'r defnydd o'r gair 'ni' yn y datganiad hwn ymddangos ei fod yn allgau pobl – byddai defnyddio 'pawb' neu 'pob un ohonom' yn cryfhau'r geiriad.

**EIN HYMATEB:**


Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref i'r flaenoriaeth hon. Credwn ei bod yn bwysig bod geiriad y blaenoriaethau lefel uchaf yn parhau i fod yn syml ac yn gofiadwy.

Nid ydym yn credu mai tasg i Lywodraeth yw datblygu diffiniad o ddiwylliant. Mae'r cyflwyniad i'r ddogfen hon yn egluro sut rydym yn defnyddio'r geiriau 'sector diwylliant' i olygu'r sectorau celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifdai a'r sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Blaenoriaethau a dyheadau ar gyfer Cymru yw'r rhain, a chredwn fod diwylliant Cymru yn ei holl amrywiaeth ymhlyg yn hyn. Mae gwerthfawrogi fod Cymru'n genedl amlddiwylliannol yn amlwg drwy'r ddogfen. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried gwneud newidiadau i gryfhau geiriad y flaenoriaeth, a'r naratif sy'n cyd-fynd ag o.

## Dyhead 1: Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol

**C2: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion (84%) yn cytuno â Blaenoriaeth 1. Dyhead drafft 14 gafodd yr ail lefel gryfaf o gefnogaeth o blith yr holl ddyheadau.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Dylem gofio bod angen mwy o gefnogaeth ar rai grwpiau nag eraill er mwyn iddynt allu cymryd rhan ac ymgysylltu â diwylliant. Mae fforddiadwyedd a mynediad at ddiwylliant i'r rhai ar incwm is yn ystyriaeth yma hefyd. Mae angen cymryd camau parhaus i gefnogi'r dyhead hwn.

- Mae angen model cynaliadwy o gyllid i gyflawni'r dyhead hwn, wedi'i gefnogi gan gynllun gweithredu a mecanweithiau addas ar gyfer adrodd ar gynnydd.
- Dylem ystyried sut mae'r Llywodraeth yn cefnogi hygyrchedd yn ei hystyr ehangaf – gan gynnwys a yw cymorth ariannol gan y Llywodraeth yn cael ei ddosbarthu'n deg ar draws pob rhan o Gymru ac ar draws pob demograffeg i gefnogi mynediad at y celfyddydau a diwylliant.
- Mae pob elfen o'r dyhead yn ymrwymiad sylweddol ynddo'i hun ac ar ei ben ei hun, ac mae angen dulliau gweithredu gwahanol. Dylem ystyried peidio â grwpio'r rhain gyda'i gilydd mewn un datganiad.
- Mae rhwystrau presennol sy'n effeithio ar y gallu i gael mynediad at ddiwylliant ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau ariannol a fforddiadwyedd, trafnidiaeth, rhwystrau daearyddol a ffisegol.
- Gellid cryfhau'r dyhead drwy roi pwyslais ar yr angen i wasanaethau fod yn lleol ac yn rhad ac am ddim.
- Nid yw'r sector diwylliant yng Nghymru yn gwasanaethu'r gymuned fyddar yn ddigonol.
- Dylid cynnwys ffydd yn y naratif ategol ac yn yr Asesiad Effaith Integredig.
- Mae angen cefnogi cymunedau amlddiwylliannol i ddathlu eu diwylliannau.
- Dylai'r naratif bwyso a mesur anghenion pobl ag anableddau dysgu a dylai ystyried yr angen am fannau diwylliannol priodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Dylai'r naratif gyfeirio'n fwy penodol nid yn unig at fynd i'r afael â chynhwysiant, amrywiaeth a hygyrchedd, ond hefyd at ganoli, buddsoddi mewn, a dathlu celfyddydau a diwylliant sy'n cael eu harwain gan amrywiaeth ac anabledd.
- Gellid cryfhau'r naratif drwy gyfeirio at Bapur Briffio Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar Lesiant Diwylliannol sy'n cynnwys argymhellion penodol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch deall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau y gwyddom amdanynt o ran cyfranogiad a darpariaeth.
- Gellid cyfuno'r dyhead â dyhead 3 sy'n canolbwyntio ar ddehongli a chofnodi.

**EIN HYMATEB:**


Rydym yn benderfynol mai dyma ddylai dyhead cyntaf fod, gan danlinellu ein hymrwymiad llwyr i fwrw ymlaen â hi. Byddwn yn adolygu'r naratif sy'n cyd-fynd â'r dyhead i adlewyrchu rhai o'r sylwadau a byddwn yn osgoi mynd ati i restru nodweddion gwarchodedig.

Nodwn y sylwadau am gyllid ac adnoddau eraill; am yr angen am ymrwymiad i gamau gweithredu penodol, ac am bwysigrwydd sicrhau bod gan gymunedau fynediad at fannau diwylliannol priodol.

Byddwn yn ystyried sut mae clustnodi cyllid ar gyfer y dyhead hwn o fewn y dyraniad cyllid i gefnogi cyflenwad, a byddwn yn nodi sut orau i gyflawni'r dyhead, gan ganolbwyntio ar ardaloedd a chymunedau sydd angen rhagor o gymorth i allu cymryd rhan ac ymgysylltu â diwylliant.

## Dyhead 2: Mae democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol yn ganolog i ddiwylliant yng Nghymru

**C3: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â Blaenoriaeth 2.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**


- Roeddech chi'n teimlo bod angen rhoi mwy eglurhad ar y dyhead, gan nodi nad oes dealltwriaeth eang o'r termau sy'n ymwneud â hawliau diwylliannol a democratiaeth ddiwylliannol.
- Nid oes digon o staff, mae'r strwythurau'n annigonol ac nid oes cyllid ar gael i gefnogi'r dyhead, yn enwedig o ystyried y gwaith allgymorth posibl sydd ei angen i wireddu hyn.
- Yn ymarferol, gallai'r dyhead hwn, yn anfwriadol ddibrisio a gorthrymu diwylliant neu iaith leiafrifol (gan gynnwys y Gymraeg) gan ei fod yn awgrymu y gallai niferoedd uwch neu leisiau cryfach foddi eraill.
- Mae'r testun naratif sy'n cefnogi'r dyhead hwn yn awgrymu mai yn nwylo sefydliadau mwy ac nid gyda grwpiau cymunedol y mae'r pŵer i gyflawni'r nod.
- Mae cydweithio ag ystod ehangach o bartneriaid a grwpiau yn angenrheidiol os am gyflawni democratiaeth ddiwylliannol.
- Mae'n bosib bod peth gorgyffwrdd rhwng dyhead 2, a dyheadau 1 a 3.

**EIN HYMATEB:**

Rydym yn falch bod y mwyafrif yn cefnogi egwyddor y dyhead hwn. Byddwn yn ystyried y geiriad a'r naratif cysylltiedig, ac a allai'r egwyddor sydd y tu ôl i'r dyhead gael ei hadlewyrchu'n well mewn rhannau eraill o'r blaenoriaethau a'r dyheadau.

## Dyhead 3: Mae diwylliant yn mabwysiadu dull cynhwysol a chytbwys o ddehongli, coffáu a chyflwyno ein gorffennol

**C4: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â Blaenoriaeth 3. Roedd 20% yn ansicr neu'n anghytuno.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**


- Dylem ystyried aralleirio'r dyhead i gynnwys ffocws ar y dyfodol. Dyma un awgrym ar gyfer aralleirio: 'Mae diwylliant yn mabwysiadu dull cynhwysol o ddehongli a chyflwyno ein gorffennol a'n presennol, ac ysbrydoli ein dyfodol'
- Gellid cyfuno Dyhead 1 gyda dyhead 3.
- Mae angen gwreiddio mwy o bwyslais ar waith gwrth-hiliol ar draws y ddogfen. Mae'n bwysig sicrhau bod pob dyhead yn cael ei ddehongli fel un croestoriadol, ac nad yw'n mynd i'r afael â materion unigol ar eu pen eu hunain.
- Gallai defnyddio'r gair 'cytbwys' beri problemau. Gall fod yn oddrychol ac yn cael ei ddehongli drwy ragfarnau. Yn groes i hynny, roedd ymatebion eraill yn mynd ati'n benodol i gefnogi'r angen am ddull gweithredu cytbwys, gan groesawu'r defnydd o'r gair 'cytbwys'.
- Mae tensiwn rhwng parchu hanes a phrofiadau bywyd y boblogaeth fwyafrifol a chefnogi eu dealltwriaeth o ddiwylliannau lleiafrifol. Roedd ychydig o ymatebion yn anghytuno ag addasu'r lens wrth ddehongli'r gorffennol.

**EIN HYMATEB:**

Rydym yn dal yn hyderus y dylid cynnwys y dyhead yn y Blaenoriaethau ond rydym wedi nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch defnyddio'r gair 'cytbwys'. Byddwn yn adolygu geiriad y dyhead hwn wrth fynd ati i gwblhau'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

## Dyhead 4: Mae diwylliant yn rhan annatod o greu lleoedd a llesiant cymunedol

**C5: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 4. Mae cefnogaeth gadarnhaol gan 86% yn golygu mai dyma'r dyhead sydd wedi derbyn y gefnogaeth gryfaf o blith yr holl Flaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Rydych yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r pwyslais ar greu lleoedd.
- Rydych yn pryderu ynghylch sut y gellir bwrw ymlaen â'r dyhead o ystyried y gostyngiadau yng nghyllid y sector cyhoeddus a'r angen am gyllid i gefnogi lleoliadau cymunedol.
- Mae'n bwysig bod mynediad ar gael at rwydwaith o fannau diwylliannol cynhwysol a hygyrch ar lefel gymunedol. Mae toriadau mewn gwasanaethau diwylliannol yn arwain at ostyngiad mewn ansawdd bywyd, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig, ac mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar lesiant cymunedol.
- Mae methu â chael mynediad at ddiwylliant yn lleol yn golygu bod diwylliant yn datblygu i fod yn elitaidd, a dim ond pobl sydd â'r modd i deithio sy'n gallu elwa o ddiwylliant.
- Mae angen mannau diwylliannol bywiog a deniadol sy'n adlewyrchu treftadaeth a hunaniaeth leol.
- Mae cysylltiad rhwng diwylliant, lleoedd a hunaniaeth unigolion a chymunedau. Dywedodd un ymateb 'gall gwerthfawrogi treftadaeth bob dydd ein cymdogaethau ein helpu i deimlo'n falch o ble rydyn ni'n byw, neu o ble rydyn ni'n dod, a theimlo ein bod wedi ein grymuso'n well fel cymuned'.
- Mae chwaraeon yn ychwanegu gwerth diwylliannol cynhenid at bobl, lleoedd a chymunedau.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill integreiddio dulliau o ymdrin â diwylliant, pobl a thirweddau gan fod yr elfennau hyn yn cydblethu â'i gilydd ('pobl sy'n creu tirwedd – tirwedd sy'n creu pobl'). Pan fyddwn yn meddwl am ddarparu mynediad at ddiwylliant a chefnogi cyfranogiad

diwylliannol, mae'n bwysig cynnwys rhanddeiliaid sy'n gofalu am dirweddau Cymru, yn eu dehongli a'u hyrwyddo .

- Dylai diwylliant fod yn ystyriaeth bwysig mewn adfywio, datblygu economaidd a datblygu busnes. Dylem ddangos dealltwriaeth o beth yw effaith sefydliadau diwylliannol ar economïau lleol a busnesau bach.
- Dylid cryfhau'r pwyslais ar dreftadaeth a lleoedd hanesyddol (gan gynnwys adeiladau cynhenid Cymru), tirweddau ac enwau lleoedd.
- Mae mentrau sy'n cael eu sbarduno gan y gymuned yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddiogelu, gwella a dathlu diwylliant ar lefel leol.
- Ymestyn y cysylltiad rhwng diwylliant a chreu lleoedd i gynnwys cydlyniant cymdeithasol a hunaniaeth hefyd. Mae'r term 'hunaniaeth' yn berthnasol i unigolion, cymunedau a lleoedd.
- Mae'r testun cysylltiedig yn rhoi pwyslais cryfach ar greu lleoedd nag ar lesiant cymunedol.
- Cyfeiriodd ychydig o ymatebion at yr angen i gynnwys y gair 'iechyd' yn y dyhead, gan awgrymu ei newid i 'Mae diwylliant yn rhan annatod o greu lleoedd ac iechyd a lles cymunedol'.

**EIN HYMATEB:**

Rydym wedi nodi'r gefnogaeth gref i'r dyhead hwn.


Rydym yn cydnabod yr angen i weithio gyda phartneriaid allweddol ar lefel fwy lleol i gyflawni'r dyhead hwn.

Mae angen i ni ddyfnhau ein dealltwriaeth o fannau diwylliannol ffisegol a sut maent yn cael eu defnyddio, ac ystyried sut y dylai hyn sbarduno buddsoddiad strategol yn y dyfodol.

Byddwn yn ystyried sut rydym ar hyn o bryd yn cyfeirio at lesiant cymunedol yn y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r testun drafft.

## Dyhead 5: Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc, ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gyfranogwyr ac arweinwyr diwylliannol

**C6: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 5.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Cafwyd ymateb cryf a chadarnhaol i'r dyhead hwn. Fe gyfeirioch chi at bwysigrwydd cyflwyno ysgogiadau diwylliannol i blant o oedran ifanc, a'r angen i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol o grewyr diwylliannol.
- Roedd yr ymatebion yn cydnabod y cysylltiad rhwng y dyhead hwn a datblygu ymdeimlad o berthyn ac o hunaniaeth, o ddatblygu sgiliau pwysig, ac o ddarparu profiad cyflawn o fywyd.
- Ar y llaw arall, roedd dau ymateb yn fwy negyddol, gan nodi bod dyhead a oedd yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn eithrio pobl hŷn sy'n ymgysylltu â diwylliant ac yn cyfyngu arnynt.
- Nododd ymateb a oedd yn cynrychioli barn grŵp o 24 disgybl ysgol y dylid cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar ddiwylliant lleol a chenedlaethol.
- Gofynnodd un ymateb am i'r naratif gyfeirio at gyfleoedd rhyngwladol i blant a phobl ifanc drwy gyfnewid diwylliannol.
- Roedd ychydig ohonoch yn myfyrio ar yr angen i sicrhau bod mynediad at gyfleoedd i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu ac anableddau eraill, yr angen i gefnogi plant a phobl ifanc o deuluoedd tlotach, a'r angen i sicrhau mynediad a chyfranogiad i blant o gymunedau amrywiol.
- Cyfeiriodd rhai at yr angen i sicrhau bod ystod eang o brofiadau diwylliannol ar gael i blant yn y Gymraeg, gan nodi y byddai hyn yn cefnogi plant i ddod yn siaradwyr Cymraeg mwy rhugl.
- Mae angen i naratif y ddogfen gyfeirio'n fwy penodol at y Cwricwlwm i Gymru, gan ddysgu am hanes Cymru, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad yn y blynyddoedd cynnar, a'r ddeddfwriaeth ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
- Fe ofynnoch chi i ni ganolbwyntio fwy ar deuluoedd, gan awgrymu y dylid cyflwyno mannau diwylliannol sy'n addas i deuluoedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r dyhead, ac y gall teuluoedd eu defnyddio i ymgysylltu â diwylliant yn rheolaidd.


**EIN HYMATEB:**

Rydym wedi ymrwymo i gynnwys a chyflawni'r dyhead hwn.

Nodwn fod rhywfaint o orgyffwrdd yn y sylwadau a gafwyd am gyflawni'r dyhead hwn ar y cyd â dyhead un, sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant a hygyrchedd.

## Dyhead 6: Mae diwylliant yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau

**C7: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 6.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Gall cyfranogiad diwylliannol gysylltu gwahanol genedlaethau, teuluoedd a chymdogaethau, ond mae mynediad at fannau diwylliannol priodol yn rhan bwysig o gyflawni'r dyhead hwn.
- Mae'r naratif yn canolbwyntio ar gefnogi llesiant pobl hŷn drwy ddiwylliant a threftadaeth. Er bod hyn yn bwysig, gellid cryfhau rôl diwylliant a threftadaeth fel man lle mae cenedlaethau hŷn ac iau yn dod at ei gilydd ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd.
- Mae diwylliant yn cryfhau'r cysylltiad, ac mae hefyd yn meithrin goddefgarwch, dealltwriaeth, tosturi a chydlyniant.
- Nododd un ymateb y gallai'r naratif ganolbwyntio'n ehangach ar gynnwys cydlyniant cymunedol.

**EIN HYMATEB:**

Byddwn yn ystyried a oes angen adolygu a chryfhau'r dyhead hwn a'r naratif ategol.

## Dyheadau Coll (Blaenoriaeth 1)

**C8: A oes unrhyw ddyheadau nad ydym wedi eu nodi a allai gefnogi'r flaenoriaeth hon ymhellach?**

Nododd un ymateb dro ar ôl tro fod angen dyheadau sy’n canolbwyntio ar natur, gan nodi bod angen i’r sector diwylliant fod yn eiriolwr rhagweithiol dros yr amgylchedd naturiol.

Nododd un ymateb yr angen i ddathlu rhagoriaeth a gosod Cymru fel cenedl arloesol a blaengar yn ddiwylliannol, lle mae diwylliant yn creu hunaniaeth ar y cyd i’r genedl.

Nododd un ymateb yr angen am ddyhead i gydnabod a chefnogi creadigrwydd bob dydd a grwpiau a sefydliadau ar lawr gwlad.

**EIN HYMATEB:**

Nid oedd yr ymatebion yn cynnwys unrhyw themâu cryf, a oedd yn codi dro ar ôl tro.

Mae rhai o’r awgrymiadau ar gyfer dyheadau ychwanegol i gefnogi Blaenoriaeth drafft 1 eisoes wedi’u hadlewyrchu mewn meysydd eraill o’r Blaenoriaethau drafft neu roeddent yn fwy gweithredol eu natur.


## Sylwadau Pellach (Blaenoriaeth 1)

**C9: Defnyddiwch y blwch hwn i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach sydd gennych ynghylch Blaenoriaeth 1: Mae diwylliant yn dod â ni ynghyd Os mai "na ddylai/nac oes" oedd eich ateb i unrhyw gwestiwn yn yr adran hon, esboniwch pam yma.**

Fel gyda Chwestiwn 8 uchod, nid oedd yr ymatebion yn cynnwys unrhyw themâu cryf, a oedd yn codi dro ar ôl tro. Roedd rhai sylwadau’n cyfeirio at feysydd o ddiddordeb sy’n cael sylw’n nes ymlaen yn y blaenoriaethau drafft a’r holiadur ymgynghori, neu a oedd yn fwy perthnasol i gynllunio ar gyfer gweithredu.

## Blaenoriaeth 2: Cenedl diwylliant

**C10: I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r flaenoriaeth hon fod yn rhan o'n blaenoriaethau ar gyfer diwylliant yng Nghymru? Rhowch sgôr o 1-5, gydag 1 yn golygu 'anghytuno'n llwyr' a 5 yn golygu 'cytuno'n llwyr'.**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n llwyr â Blaenoriaeth 2.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Dylai diwylliant fod yn rhan annatod o frand Cymru. Mae'n bwysig dathlu a chodi ymwybyddiaeth o ddiwylliant yng Nghymru, a thynnu sylw at yr hyn sy'n unigryw am Gymru.
- Roedd un ymateb yn credu mai hon ddylai fod y brif flaenoriaeth, gan nodi y byddai Llywodraeth Cymru, drwy fuddsoddi mewn diwylliant a'i flaenoriaethu, yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â llawer o broblemau cymdeithas yn un o'r ffyrdd mwyaf cost-effeithiol.
- Gallai'r geiriad adlewyrchu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn well drwy aralleirio i 'wlad â diwylliant bywiog'.
- Gellid gwella'r geiriad drwy fod yn fwy beiddgar, yn fwy unigryw Gymreig neu ganolbwyntio mwy ar weithredoedd. I ryw raddau, gwrthbwyswyd yr ymatebion hyn gan yr ymatebion hynny a oedd yn pwysleisio na ddylai diwylliant cenedlaethol unigryw foddi nodweddion diwylliannol eraill yng Nghymru.
- Mae cyllid cynaliadwy a sgiliau arbenigol mewn sefydliadau diwylliannol cenedlaethol ac o fewn gwasanaethau diwylliannol lleol yn sbardunau allweddol ar gyfer cyflawni'r dyhead hwn.


- Mae gan y diwydiannau creadigol yng Nghymru (ffilm, teledu a'r cyfryngau) ran allweddol yn y gwaith o hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd. Byddai'n fuddiol cael mwy o gydnabyddiaeth o hyn ac mae angen cydweithio agosach rhwng y sector diwylliant a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

**EIN HYMATEB:**

Byddwn yn ystyried a oes angen adolygu a chryfhau'r dyhead hwn mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd.

## Dyhead 7: Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog

**C11: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 7.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod cefnogaeth gref i'r dyhead hwn, gan fanteisio ar y cyfle i fyfyrio ar bwysigrwydd diwylliannol y Gymraeg yng Nghymru, a sut mae'n cyd-fynd â strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg*.
- Roeddech chi'n cefnogi agwedd Llywodraeth Cymru at y Gymraeg fel iaith sy'n perthyn i bawb yng Nghymru ac yn nodi y gallai mynychu digwyddiadau diwylliannol a chysylltu â diwylliant cyfrwng Cymraeg annog pobl i ddefnyddio'r iaith. Roedd un ymateb yn pwysleisio'r angen i siaradwyr Cymraeg allu ymgysylltu â diwylliant drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol eu hoes.
- Nododd ychydig o ymatebion bwysigrwydd taro cydbwysedd, gan fynegi'r angen i sicrhau bod hanes a diwylliant Cymru yn hygyrch i'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg, sut y gallai diwylliant fod yn fecanwaith ar gyfer hyrwyddo cydlyniant a'r angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg mewn ffordd sensitif a chynhwysol.
- Roedd ychydig o ymatebion yn myfyrio ar y cysylltiadau rhwng iaith a hygyrchedd, gan ofyn i'r sector diwylliant yng Nghymru dderbyn yr her o

wreiddio ieithoedd ychwanegol yn eu rhaglenni i wneud gwasanaethau diwylliannol yn fwy hygyrch.

- Nododd un ymateb y gellid ystyried bod hyrwyddo Cymru fel cenedl amlieithog yn gwrthdaro’n uniongyrchol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Awgrymodd ychydig o ymatebion newidiadau i eiriad y dyhead, gan gynnwys y canlynol:

- Mae diwylliant yn dathlu Cymru fel cenedl amlieithog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo’r Gymraeg ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog. Rydym hefyd eisiau cefnogi ieithoedd eraill sy’n cael eu defnyddio gan gymunedau ledled Cymru.

Roedd adnoddau’n bryder o hyd, gydag ychydig o ymatebion yn mynegi pa mor anodd y gallai fod i wireddu’r dyhead hwn o ystyried y toriadau ar draws y sector.


**EIN HYMATEB:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi’r Gymraeg fel iaith sy’n perthyn i holl bobl Cymru. Nid yw cydnabod bodolaeth ieithoedd eraill yng Nghymru yn y dyhead hwn yn tanseilio statws swyddogol y Gymraeg.

Byddwn yn ystyried a oes angen adolygu geiriad y dyhead hwn mewn ymateb i’r sylwadau a gafwyd.

## Dyhead 8: Mae llesiant diwylliannol wedi’i wreiddio’n ddwfn yn y broses o lunio polisïau ledled Cymru

**C12: A ddylai’r dyhead hwn fod yn un o’n Blaenoriaethau?**




Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion yn cytuno â Dyhead 8. Roedd 22% yn ansicr neu’n anghytuno.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roedd llawer ohonoch eisiau dweud wrthym am raglenni neu syniadau presennol ar gyfer partneriaethau polisi a allai gefnogi’r gwaith o gyflawni’r dyhead.

- Fe wnaethoch chi fyfyrio ar y posibilrwydd o weithio gyda meysydd polisi fel trafnidiaeth, economi'r nos, adfywio strydoedd mawr, mannau gwaith fforddiadwy a'r angen i gryfhau'r cysylltiadau presennol rhwng diwylliant a meysydd polisi fel addysg, iechyd ac iechyd meddwl.
- Fe ddywedoch chi wrthym fod angen rhagor o gyngor a chymorth ar gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut mae cefnogi a hyrwyddo llesiant diwylliannol, ac roeddech yn cytuno fod angen gwreiddio llesiant diwylliannol mewn polisïau ac arferion ar lefel genedlaethol a lleol.
- Roedd un ymateb yn argymell cyflwyno asesiadau gorfodol o'r effaith ar ddiwylliant ym mhob proses llunio polisi, ac awgrymodd un arall y dylai cymorth ar gyfer gwasanaethau a darpariaeth ddiwylliannol fod yn statudol.
- Mae rôl y Gweinidog a'i ddylanwad ar draws Llywodraeth Cymru yn hollbwysig o ran cyflawni'r dyhead hwn.
- Roedd dau ymateb yn teimlo bod angen eglurder ynghylch beth oedd ystyr llesiant diwylliannol, gan ofyn am ddiffiniad o'r term hwn.

Dyma rai o'r awgrymiadau a gafwyd i wella geiriad y dyhead:


- Mae llesiant diwylliannol a chydnabyddiaeth o rym diwylliant wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y broses o lunio polisïau ledled Cymru;
- Dylid gwneud diwylliant yn ddarpariaeth statudol ar draws llywodraeth a llywodraeth leol ac mae wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y broses o lunio polisïau ledled Cymru.

**EIN HYMATEB:**

Byddwn yn ystyried a oes angen adolygu'r naratif mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd.

## Dyhead 9: Mae ymgysylltu diwylliannol yn cefnogi llesiant unigolion a chymunedau

### C13: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 9.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roedd yn bosibl y byddai gorgyffwrdd rhwng dyhead 9 a dyhead 4.
- Roedd ychydig o ymatebion yn myfyrio ar astudiaethau sy'n cadarnhau'r cysylltiad rhwng creadigrwydd, lles meddyliol da a heneiddio'n iach. Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol yn gwella ymgysylltu dinesig, democratiaeth a chydlyniant cymdeithasol.
- Mae angen i'r dyhead hwn ystyried sut mae diwylliant yn cefnogi cydlyniant cymdeithasol mewn cymunedau, ac ni ddylai ganolbwyntio ar lesiant yn unig.
- Roedd dau ymateb yn myfyrio ar yr angen i'r dyhead ystyried yr aliniad â Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Cenedlaethol.
- Fe ddywedoch wrthym fod lles cymunedol yn fwy na dim ond lles unigolion, ac y dylai'r dyhead fod yn gysylltiedig â bywyd ar y cyd mewn cymuned (nad yw o reidrwydd yn gymuned ddaearyddol).
- Nododd ychydig o ymatebion fod angen adnoddau parhaus i gael effaith wirioneddol ar faterion strwythurol ac economaidd-gymdeithasol ac i alluogi diwylliant i weithredu fel catalydd ar gyfer newid parhaol.

Dyma rai o'r newidiadau a awgrymwyd i'r geiriad presennol:

- Mae gan asedau diwylliannol ac ymgysylltu diwylliannol ddigon o adnoddau i barhau i gefnogi iechyd a llesiant unigolion a chymunedau.

**EIN HYMATEB:**


Byddwn yn ystyried a oes angen adolygu geiriad y dyhead o ystyried y canfyddiad fod gorgyffwrdd â dyhead 4 a chyda llunio polisi fel y mynegir yn nyhead 8. Byddwn yn ystyried a oes angen gwella, cryfhau a chyfuno'r uchelgeisiau hyn.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant, cyfrannodd swyddogion at y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant. Rydym yn hyderus bod y broses hon wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng y rhain.

Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o arferion rhagorol eisoes yn digwydd. Gall gynnwys hyn fel dyhead clir ddyfnhau partneriaethau presennol, datblygu rhai newydd, a sicrhau bod hyn yn cael ei wreiddio mewn gwaith cynllunio gweithredol ar draws y sector diwylliant ac yn ehangach.

## Dyhead 10: Bydd cyrff diwylliant a threftadaeth yn cydweithio mwy i fanteisio i'r eithaf ar botensial llawn eu timau arbenigol a'u casgliadau, a byddant yn gweithio gyda sectorau eraill i ystyried pŵer diwylliant, a manteisio arno

## C14: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?




Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 10.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roedd ychydig o ymatebion yn croesawu'r dyhead, gan nodi y gallai fod o fudd i sefydliadau ar lawr gwlad, ac yn enwedig i randdeiliaid llai sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth.
- Nododd rhai ymatebion bryderon am effeithiau posibl ar fecanweithiau cyllido, gan nodi ei bod yn ymddangos bod y rhain yn cefnogi cystadleuaeth a gweithio mewn seilos ar hyn o bryd. Mynegodd tri ymateb bryder ynghylch y dyhead, gan adlewyrchu y gellid ei ddehongli fel cod ar gyfer gwneud mwy gyda llai o adnoddau.
- Nododd dau ymateb fod weithiau angen cyllid ac adnoddau staff ychwanegol er mwyn cydweithio, a bod buddsoddi mewn timau arbenigol dan fygythiad ar hyn o bryd.
- Fe fynegoch chi bryder am yr angen i sicrhau nad yw'r dyhead yn tanseilio dewisiadau creadigol dilys.
- Mae angen adeiladu hefyd ar waith mewn partneriaeth sydd eisoes yn digwydd, a chefnogi cynaliadwyedd a dulliau gweithredu mwy hirdymor. Er bod manteision enfawr i gydweithio mwy integredig a strategol, mae'n cymryd amser i'w wreiddio.
- Nododd un sefydliad y gallai cydweithio ganiatáu iddynt fod yn fwy uchelgeisiol ac arloesol, gan eu galluogi i gyflawni mwy dros bobl Cymru.
- Gofynnoch am eglurder ynghylch y gair 'cyrff' yn y dyhead, gan ofyn a yw'n ymwneud â sefydliadau cenedlaethol yn unig, neu a yw'n cyfeirio at yr holl randdeiliaid / y rhai sy'n cynnig darpariaeth ddiwylliannol.
- Mae angen i'r naratif gyfeirio at weithio gyda'r sector iechyd ac am gyfarwyddeb glir gan y Llywodraeth ynghylch defnyddio'r celfyddydau a diwylliant mewn rhaglenni iechyd ataliol ac fel rhan o raglenni presgripsiynu cymdeithasol lleol a chenedlaethol.
- Gallai'r dyhead amlygu rôl Llywodraeth Cymru o ran hwyluso cydweithio.

- Gan fyfyrio ar 'sgiliau arbenigol', awgrymodd un ymateb fod angen diogelu rolau rheoli datblygu cynlluniau, rheoli treftadaeth a phrosiectau archaeolegol gan eu bod yn rhoi sail i'r sector treftadaeth ehangach.


**EIN HYMATEB:**

Nid ydym yn cytuno bod y dyhead yn ymwneud â chyflawni mwy gyda llai o adnoddau. Rydym yn canolbwyntio ar symud oddi wrth weithio mewn seilos er budd y naill ochr a'r llall, ac fel ffordd o gryfhau effeithiau cadarnhaol diwylliant.

Byddwn yn adolygu naratif y ddogfen.

## Dyhead 11: Mae diwylliant yn cefnogi twristiaeth; mae twristiaeth yn cefnogi diwylliant. Mae gan ddiwylliant broffil uchel yn y ffordd y caiff ein cenedl ei marchnata i ymwelwyr

**C15: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 11.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Mae twristiaeth ddiwylliannol yn cynnig cyfleoedd enfawr, gyda mwy o botensial yng Nghymru na'r hyn sy'n cael ei wireddu ar hyn o bryd.
- Dylai'r sector diwylliant fod yn bartner cyfartal wrth gynllunio profiadau celfyddydol a diwylliannol unigryw. Ar hyn o bryd, mae'r sector yn creu gwaith i gyd-fynd â themâu 'blwyddyn...', ond byddai newid dull gweithredu yn fwy cynaliadwy.
- Gallai'r diwydiannau creadigol gael eu hadlewyrchu'n well yn y dyhead – mae diwylliant a'r diwydiannau creadigol yn sbardunau economaidd pwysig.
- Mae angen cydbwyso manteision economaidd ag effeithiau posibl ar gymunedau Cymraeg eu hiaith ac ar adnoddau naturiol – ar hyn o bryd, gallai dyhead 11 arwain at ganlyniadau anfwriadol.

- Gellid cynnwys twristiaeth ffydd fel rhan o’r dyhead hwn – fe nodoch chi fod mannau addoli’n denu ymwelwyr a’u bod yn deilwng o gael eu dathlu a’u hyrwyddo’n benodol.
- Dylai’r Gymraeg a diwylliant Cymraeg fod yn ganolog i dwristiaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau manteision i gymunedau Cymraeg eu hiaith, a gallai datblygu twristiaeth yn gynaliadwy wneud cyfraniad cadarnhaol i gymunedau Cymraeg eu hiaith.
- Gwnaeth tri ymateb arall yr achos dros i’r naratif ystyried y cysylltiadau rhwng diwylliant a thwristiaeth gynaliadwy hefyd neu hyd yn oed dwristiaeth adfywiol, lle mae twristiaeth yn ceisio gadael ôl troed cadarnhaol a lle mae cymunedau’n ffynnu.
- Yn yr un modd â dyheadau eraill, roedd adnoddau ar gyfer y sector diwylliant yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro. Nododd un ymateb fod angen darparu adnoddau a chynnal diwylliant ar lefel uchel er mwyn rhoi proffil gwirioneddol uchel i’r ffordd y mae Cymru’n marchnata ei hun i ymwelwyr. Roedd ymateb arall yn adlewyrchu’r angen am newidiadau i gyllid, gan nodi na all sefydliadau diwylliannol yng Nghymru gynnig digon o wasanaethau a rhaglenni i ymwelwyr oherwydd hanes o ddiffyg adnoddau.
- Awgrymodd un ymateb y gellid defnyddio’r arian a godir o’r ardoll dwristiaeth i gefnogi economïau ymwelwyr lleol a diwylliant.


**EIN HYMATEB:**

Byddwn yn adolygu a oes angen diweddaru geiriad y dyhead a’r naratif cysylltiedig.

Nodir y pwynt ynghylch cydbwyso manteision economaidd ag effeithiau negyddol posibl. Y sbardun y tu ôl i’r dyhead hwn yw sicrhau bod diwylliant yng Nghymru yn cael ei gynrychioli a’i wreiddio’n well yn y ffordd rydym yn hyrwyddo Cymru i ymwelwyr o Gymru, o’r DU yn ehangach ac o dramor.

## Dyhead 12: Mae diwylliant wedi’i integreiddio yn y ffordd y mae Cymru’n sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau rhyngwladol

**C16: A ddylai’r dyhead hwn fod yn un o’n Blaenoriaethau?**



Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 12.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roedd yr adborth yn deall pwysigrwydd integreiddio diwylliant mewn cysylltiadau rhyngwladol ac yn tynnu sylw at fanteision cyfnewid diwylliannol a chydweithio diwylliannol.
- Fe roddoch ystyriaeth i'r gorgyffwrdd posibl rhwng Dyhead 12 a Dyhead 13, gan awgrymu y gellid cyfuno'r ddau ddyhead.
- Mae integreiddio diwylliant a chwaraeon yn rhan allweddol o'r gwaith o gyflawni'r dyhead hwn a dyhead 13 - mae digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol wedi llwyddo i gynnig llwyfannau ar gyfer dathlu a hyrwyddo diwylliant Cymru. Dylid cryfhau'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio'n agosach â chwaraeon, a phroffil chwaraeon.
- Mae gan y diwydiannau creadigol ran hollbwysig yn y gwaith o gyflwyno a dathlu Cymru ar lwyfan y byd.
- Dylid tynnu sylw at ddull gweithredu Cymru sy'n arwain y byd o ran democrateiddio diwylliannol a chyfeirio ato yn y dyhead hwn.
- Mae angen i bob dyhead adlewyrchu hyder yn sgiliau creadigol Cymru. Dylai cenadaethau diwylliannol a diplomyddol gynnwys artistiaid llawrydd, pobl greadigol a sefydliadau llai.
- Gellid gwella'r dyhead drwy gynnwys cyfeiriadau at ddigwyddiadau diwylliannol arwyddocaol a phrosiectau blaenllaw a thrwy ystyried sut rydym yn hyrwyddo'r rhain yn rhyngwladol.
- Mae pryder ynghylch perthynas newydd y Deyrnas Unedig â'r UE, a sut mae'n effeithio ar weithgarwch trawsffiniol. Rydych chi eisiau gweld gwell cefnogaeth er mwyn i weithwyr proffesiynol oresgyn rhwystrau rhag gweithio'n rhyngwladol.
- Dylai Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru a'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant fod yn gysylltiedig â'i gilydd.

**EIN HYMATEB:**


Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda thîm polisi cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru wrth lunio'r naratif sy'n cefnogi'r dyhead hwn.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes da o ymgorffori diplomyddiaeth ddiwylliannol mewn digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol dros y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn ystyried y cyfleoedd a gynigir gan ddigwyddiadau chwaraeon i hyrwyddo diwylliant Cymru.

Byddwn yn ystyried a oes angen i ni adolygu geiriad y dyhead a'r naratif cysylltiedig ymhellach mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd.

## Dyhead 13: Codi proffil diwylliant yng Nghymru drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol

**C17: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 13.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Dylid canolbwyntio ar greadigrwydd lleol, a rhaglenni creadigol sy'n gwella llesiant.
- Dylai rhagoriaeth a darpariaeth ddiwylliannol broffesiynol o ansawdd uchel fod yn rhan o'r dyhead hwn ac yn ddyhead ar gyfer sectorau diwylliannol a chreadigol Cymru.
- Dylai Dyhead 13 gynnwys cyfeiriad at gyfraniad yr amgylchedd hanesyddol at hunaniaeth ddiwylliannol yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â phensaernïaeth gynhenid Cymru.
- Mae'n bwysig adlewyrchu'r amrywiaeth o wahanol ddathliadau diwylliannol ar draws cymunedau Cymru.
- Gallai'r dyhead a'r naratif gynnwys mwy o gyfeiriadau at hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol arwyddocaol, ac at adeiladu ar y rhaglenni cyfnewid diwylliannol rhyngwladol presennol.
- Mae pryder ynghylch perthynas newydd y Deyrnas Unedig â'r UE, a sut mae'n effeithio ar weithgareddau trawsffiniol, a dylid cysylltu Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru a'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.
- Dylai rhaglenni cyfnewid diwylliannol ddathlu a chefnogi'r diwylliant Celtaidd rydym yn ei rannu.
- Nododd rhai ymatebion fod cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng Dyhead 13 a dyheadau eraill, gan awgrymu y gellid ei gyfuno â dyheadau eraill, neu ei ddileu.
- Awgrymwyd y dylid aralleirio'r dyheadau gan gynnwys integreiddio'r gair 'rhanbarthol' (h.y. 'codir proffil diwylliant yng Nghymru, drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.') Awgrymodd un arall y gellid aralleirio Dyhead 13 i adlewyrchu'r angen i integreiddio diwylliant ym mhob maes llywodraeth er mwyn cael mwy o effaith

(h.y. ‘codi proffil diwylliant yng Nghymru, drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar draws holl feysydd llywodraeth a llywodraeth leol, gan gynnwys iechyd’).

**EIN HYMATEB:**

Byddwn yn ystyried a oes angen adolygu geiriad y dyhead hwn a’r naratif cysylltiedig yn y ddogfen.

Mae rhai o’r ymatebion yn orgyffwrdd â meysydd sydd wedi cael eu hystyried mewn rhannau eraill o’r ddogfen, neu gellid eu hystyried fel rhan o gyflenwad.

## Dyheadau Coll (Blaenoriaeth 2)

**C18: A oes unrhyw ddyheadau nad ydym wedi eu nodi a allai gefnogi’r flaenoriaeth hon ymhellach?**

Nododd dau ymateb y dylai’r flaenoriaeth gynnwys dyhead sy’n canolbwyntio ar ragoriaeth ac arloesi, a phroffesiynoldeb.

Awgrymodd un ymateb y byddai’r blaenoriaethau’n elwa o gael dyhead ychwanegol sy’n canolbwyntio ar fanteision ataliol a therapiwtig ymgysylltu â’r celfyddydau a diwylliant.

**EIN HYMATEB:**

Nid oedd yr ymatebion yn cynnwys unrhyw themâu cryf, a oedd yn codi dro ar ôl tro.

Rydym eisoes wedi nodi’r cais am bwyslais ar ragoriaeth ac arloesi mewn rhannau eraill o’r ddogfen hon (dyhead 13), ac mae dyhead presennol (dyhead 9) yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng diwylliant a llesiant.

## Sylwadau Pellach (Blaenoriaeth 2)


**C19: Defnyddiwch y blwch hwn i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach sydd gennych ynghylch Blaenoriaeth 2: Cenedl diwylliant. Os mai "na ddylai/nac oes" oedd eich ateb i unrhyw gwestiwn yn yr adran hon, esboniwch pam yma.**

Yn yr un modd â chwestiynau 8, 9 a 18, cafwyd rhai sylwadau ac awgrymiadau, ond nid oedd unrhyw themâu amlwg a oedd yn codi dro ar ôl tro. .

---

# Blaenoriaeth 3: Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy

**C20: I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r flaenoriaeth hon fod yn rhan o'n blaenoriaethau ar gyfer diwylliant yng Nghymru? Rhowch sgôr o 1-5, gydag 1 yn golygu 'anghytuno'n llwyr' a 5 yn golygu 'cytuno'n llwyr'.**




Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno neu'n cytuno'n llwyr â Blaenoriaeth 3.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roedd y prif themâu'n ymwneud â chyllido, a datblygu a chadw'r gweithlu. Mae sylwadau sy'n ymwneud â'r chadw'r gweithlu'n cael eu datblygu ymhellach yng nghwestiwn 26.
- Mae angen cyllid strategol, hirdymor er mwyn i'r sector allu parhau i ffynnu ar yr un pryd ag ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Mae angen cyllid hefyd i ofalu'n briodol am gasgliadau ac asedau, ac i sicrhau bod y sector mewn gwell sefyllfa i ddal i fyny â datblygiadau o ran arloesi digidol.
- Roedd ymatebion yn mynegi pryder ynghylch colli llawer o weithwyr medrus ers pandemig Covid-19, ac ynghylch dibyniaeth fawr y sector diwylliant ar wirfoddolwyr a gweithwyr llawrydd.
- Nid yw cyflogau ar draws y sector yn adlewyrchu'r sgiliau a'r arbenigedd dan sylw, ac mae swyddi'n tueddu i gael eu llenwi gan weithwyr sydd â mathau eraill o gymorth ariannol. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar amrywiaeth yn y gweithlu.
- Mae angen gwell cyflogau ac amddiffyniad i'r gweithlu, gyda llwybrau gyrfa a safonau proffesiynol clir.

- Gallai gwydnwch a chynaliadwyedd fod y cyntaf o’r tair blaenoriaeth – heb hyn, nid oes modd cyflawni’r ddau arall.


**EIN HYMATEB:**

Mae’r ymatebion yn cadarnhau’r angen i gynnwys y flaenoriaeth hon.

Rydym yn nodi’r prif bryderon a fynegwyd a byddwn yn ystyried os oes angen unrhyw ail-ddrafftio ar y ddogfen.

## Dyhead 14: Mae ein casgliadau a’n hasedau hanesyddol yn derbyn gofal, ac maent yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a sicrhau llesiant diwylliannol

**C21: A ddylai’r dyhead hwn fod yn un o’n Blaenoriaethau?**




Roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn cytuno â Dyhead 14.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Mae sicrhau mynediad am ddim yn dal yn bwysig.
- Mae ein casgliadau a’n hasedau hanesyddol eisoes yn sicrhau manteision o ran llesiant, creu lleoedd a chefnogi dysgu.
- Mae angen cyllid i ddiogelu casgliadau ac i gefnogi ehangu rhaglenni addysgol, cynlluniau allgymorth cymunedol, a’r profiad cyffredinol i ymwelwyr. Heb adnoddau gwell, mae perygl na fydd y sectorau’n gallu ymgymryd â gweithgareddau allweddol, fel ymgysylltu â’r cyhoedd, cadw cyfleusterau ar agor, ac adnewyddu a chynnal a chadw adeiladau hanesyddol.
- Gellid cryfhau cefnogi pobl ar incwm isel i fod yn weithgar yn ddiwylliannol trwy sicrhau bod cyllid ar gael i dalu costau teithio.
- Roedd ychydig o ymatebion yn awgrymu bod angen mwy o bwyslais ar ddiogelu casgliadau Cymru ar gyfer y dyfodol, gan ychwanegu na all diwylliant fod yn gydnerth ac yn gynaliadwy heb elfen o warchodaeth statudol/cyfreithiol.

- Mae'r gallu i ofalu am gasgliadau ac asedau hanesyddol dan fygythiad ac mae'n hawdd ei gymryd yn ganiataol.
- Mae angen mwy o gefnogaeth ar gyfer diwylliant a threftadaeth sydd mewn perygl, ac mae angen adnoddau i warchod rhag bygythiadau amgylcheddol a chostau gweithredol cynyddol.
- Mae seilwaith ffisegol a diogelwch casgliadau yn bwysig – mae angen cefnogaeth ar gyfer casgliadau amgueddfeydd lleol.
- Roedd safbwyntiau croes ynghylch a ddylai'r dyhead hwn gydnabod yr effaith y mae diwylliant yn ei chael ar ddatblygu economaidd. Nododd un ymateb fod defnyddio'r gair "asedau" yn lle "adnoddau" yn canolbwyntio ar yr economi, yn hytrach na diwylliant a threftadaeth.
- Mae angen i gasgliadau ac asedau hanesyddol fod yn fwy hygyrch i amrywiaeth o gymunedau, gan gynnwys pobl fyddar a phobl anabl.


**EIN HYMATEB:**

Mae cefnogaeth gref i'r dyhead.

Rydym yn cytuno â phwysigrwydd sicrhau bod gan bobl ar incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn tlodi fynediad at ddiwylliant. Byddwn yn adolygu'r Blaenoriaethau terfynol ar gyfer Diwylliant i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ein hawydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau lles diwylliannol holl bobl Cymru.

## Dyhead 15: Mae gan sefydliadau sy'n gyfrifol am ddiogelu a gofalu am ein casgliadau diwylliannol a'n hasedau hanesyddol ddulliau strategol i gydnabod eu harwyddocâd a'u casglu

**C22: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 15.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**


- Roedd ychydig o ymatebion yn teimlo bod geiriad y dyhead hwn yn aneglur.
- Nododd ychydig o ymatebion y gall gweithio mewn ffordd strategol fod yn anodd pan nad yw cyllidebau'n hysbys o un flwyddyn i'r llall.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau, gan eu grymuso, eu cefnogi a'u galluogi i wireddu'r dyhead hwn. Roedd adborth o weithdy yn ategu pwysigrwydd sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau cyffredin. Nododd ychydig o ymatebion nad yw cydweithio'n digwydd ar hyn o bryd mewn perthynas â chasgliadau.
- Mewn trafodaethau yn y gweithdai, codwyd yr angen am gyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n arwyddocaol, gan nodi y gallai strategaeth genedlaethol ar gyfer casgliadau fod o fudd i'r sector. Nodwyd hefyd bod storio casgliadau ar y cyd a mynediad at arbenigedd a rennir yn elfennau hollbwysig o ofalu am gasgliadau.
- Mae'n hanfodol bod y sector yn cynrychioli amrywiaeth y Gymru gyfoes. Mae angen i'r sector fynd ati i hyrwyddo amrywiaeth, ac ehangu ein dealltwriaeth o ddiwylliant drwy ein casgliadau, gan ystyried beth ddylid ei gadw a beth ddylid ei ddadflaenoriaethu.
- Mae angen cadw'r gweithlu'n well a thalu i'r rheini sydd â sgiliau arbenigol sy'n ymwneud â gofalu am gasgliadau, ynghyd â chael llwybrau gyrfa clir ar gyfer y gweithlu. Dylid hefyd canolbwyntio ar ddatblygu rhaglenni hyfforddi penodol a safonau proffesiynol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r dyhead hwn.

**EIN HYMATEB:**

Byddwn yn ystyried a oes angen mireinio'r dyhead a'r naratif cysylltiedig ymhellach fel rhan o'r gwaith o gwblhau'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

## Dyhead 16: Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn rhan annatod o stori'n gwlad – mae'n cael ei chofnodi, ei chefnogi i ffynnu, a'i rhannu ag eraill er budd cenedlaethau'r dyfodol

### C23: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?




Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 16.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Pwysigrwydd cydnabod y we gyfoethog o dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yng Nghymru a chydnabod ei bod yn esblygu'n gyson.
- Gan fyfyrio ar y geiriau 'stori'n gwlad', nododd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn y gweithdy bwysigrwydd bod cenedlaethau'r dyfodol yn gwybod am ein traddodiadau, gan gydnabod bod rhannu traddodiadau diwylliannol yn arwain at well dealltwriaeth a goddefgarwch, gan alluogi pobl i brofi ymdeimlad o berthyn.
- Nid oedd un ymateb yn cytuno bod diwylliant yn anniriaethol, ac awgrymodd un arall fod angen diweddaru rhywfaint o'r derminoleg yn y naratif cysylltiedig (er enghraifft, 'perchenogion asedau hanesyddol').
- Roedd adborth o un gweithdy ymgynghori yn mynegi pryder ynghylch y diffyg gwybodaeth hanesyddol am bobl fyddar a phobl anabl, gan egluro bod angen cael gwell cynrychiolaeth o'r cymunedau hyn.


**EIN HYMATEB:**

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a gwledydd eraill y DU ar ôl i'r DU ddod yn un o lofnodwr Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol yn 2024. Un o egwyddorion sylfaenol y Confensiwn yw bod treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn cael ei diffinio gan gymunedau, nid gan y Llywodraeth.

Fel sy'n cael ei adlewyrchu yng ngeiriad y dyhead, bydd rôl Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y camau sydd eu hangen i gofnodi a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol er budd cenedlaethau'r dyfodol.

## Dyhead 17: Mae arferion digidol da yn cefnogi ac yn gwella ein diwylliant

### C24: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?




Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 17. Roedd 21% yn ansicr neu'n anghytuno.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**


- Mae angen diffiniad o ‘arferion digidol da’ i sicrhau y gellir cyflawni a mesur y dyhead.
- Mynegwyd safbwyntiau cyferbyniol ynghylch manteision digidol. Awgrymodd un ymateb y gallai amgueddfeydd digidol fod yn gam cadarnhaol ymlaen o ran hygyrchedd. Ond mynegodd un arall bryder y gallai diwylliant digidol gael gwared ar allu pobl i ymweld â chasgliadau/safleoedd hanesyddol pe bai cyllid yn cael ei dargedu tuag at ddatblygu technoleg yn hytrach na phrofiadau ffisegol.
- Roeddech chi’n poeni bod profiad digidol yn dod yn ddull amgen o ddarparu gwasanaethau diwylliannol. Dylid gwreiddio dulliau digidol, ond ni ddylai’r rhain ddisodli profiadau ffisegol / wyneb yn wyneb.
- Rhaid i ni fod yn ymwybodol o allgáu digidol oherwydd costau a heriau hygyrchedd eraill.
- Wrth fyfyrio ar sgiliau digidol, nododd ychydig o ymatebion y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhaglenni hyfforddi ac uwchsgilio i staff a gwirfoddolwyr amgueddfeydd.
- Mae angen seilwaith digidol cenedlaethol a chynaliadwy. Nid yw rhai ardaloedd yng Nghymru yn dal i gael darpariaeth wi-fi ddigonol, mae technolegau digidol yn dibynnu ar weinyddion sy’n disbyddu adnoddau ac yn arwain at fwy o allyriadau, ac nid oes gofod ffisegol na digidol di-ben-draw ar gyfer storio.
- Byddai rhannu enghreifftiau o arferion digidol da yn y sector yn fuddiol. Roedd yr ymatebion yn cyfeirio at greu a datblygu Llwyfan Digidol Cenedlaethol ar gyfer Llyfrgelloedd Cymru fel enghraifft o’r fath.
- Awgrymodd un ymateb y dylai geiriad y dyhead gynnwys y gair ‘arloesol’ yn hytrach nag arferion digidol ‘da’.
- Rydych chi am weld mwy o ffocws ar ymgysylltu digidol. Nododd yr ymatebion nad yw’r geiriad ar hyn o bryd yn adlewyrchu’r cynnydd a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn Covid-19, ac nid yw ychwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ymgysylltiad digidol yn parhau i dyfu. Awgrymodd un ymateb y dylem gynnwys dau ddyhead ar wahân ar gyfer digidol – un yn canolbwyntio ar seilwaith digidol, ac un arall yn canolbwyntio ar arloesi digidol wrth ymgysylltu â chynulleidfaoedd, creu cynnwys newydd, a defnyddio pŵer technoleg.
- Roedd ychydig o ymatebion yn myfyrio ar bwysigrwydd deallusrwydd artiffisial, gan nodi y gallai geiriad y dyhead fynd y tu hwnt i wella arferion digidol i ystyried deallusrwydd artiffisial yn llawn. Gan gydnabod y cyfleoedd a’r bygythiadau a ddaw yn sgil deallusrwydd artiffisial, dylai gweithlu’r sector fod wrth galon trafodaethau am hyn. Roedd un ymateb yn myfyrio ar risgiau deallusrwydd artiffisial yn gwaethygu anghydraddoldebau yn y gweithle, gan roi pwysau ychwanegol ar staff, ac mewn rhai achosion, yn creu amgylchedd gwaith anniogel.
- Mae angen canolbwyntio ar ddigideiddio casgliadau, ac er mwyn sicrhau cadwraeth gynaliadwy a hirdymor, storio diogel, a mynediad da.

**EIN HYMATEB:**

Mynegwyd amrywiaeth eang iawn o safbwyntiau mewn ymateb i'r dyhead hwn. Roedd llawer o'r materion a godwyd eisoes wedi cael eu nodi fel ystyriaethau yn y naratif sy'n cyd-fynd â'r dyhead hwn. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ein hasesiad effaith a byddant yn sail i'n gwaith gyda'r sectorau a'n gwaith cynllunio ar gyfer gweithredu.

## Dyhead 18: Mae gan ddiwylliant agwedd gydweithredol a hirdymor tuag at ymchwil a chasglu tystiolaeth

### C25: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?




Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 18. Roedd 21% yn ansicr neu'n anghytuno.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roeddech yn cefnogi agwedd gydweithredol a hirdymor, ac yn cytuno bod hyn yn hanfodol ar gyfer datblygu a chynnal cymunedau a sefydliadau ymchwil. Roeddech yn awgrymu y gellid cefnogi'r gwaith o gyflawni'r dyhead drwy ei gynnwys fel un o'r gofynion cyllido.
- Dylai'r dyhead gynnwys y gair 'rhannu' yn ogystal â 'chasglu' tystiolaeth. Mae'n bwysig sicrhau bod rhanddeiliaid y sector yn gallu cael gafael ar wybodaeth a data i gefnogi'r gwaith o gynllunio gwasanaethau ac osgoi dyblygu ymdrechion.
- Dylai ymchwil ganolbwyntio ar ganlyniadau – er enghraifft, edrych ar werth diwylliant a gweithgarwch diwylliannol i ganlyniadau llesiant.
- Mae cysylltiad rhwng ymchwil ac arloesedd - mae partneriaethau ymchwil effeithiol yn ffordd o wella'r sylfaen wybodaeth a thystiolaeth y gall arloesedd ddeillio ohoni.
- Tynnodd un ymateb sylw at yr angen i feddwl am ymchwil a arweinir gan y gymuned, gan nodi bod llawer o fannau addoli eisoes yn cynhyrchu canllawiau a hanesion drwy ymchwil cymunedol lleol.

**EIN HYMATEB:**


Rydym yn cytuno â’r awgrym y dylai’r dyhead gynnwys y gair ‘rhannu’ ac yn cefnogi’r angen i gyhoeddi a rhannu allbynnau ymchwil yn rheolaidd er budd ein sectorau. O ystyried ehangder yr ymchwil bosibl, nid ydym yn cytuno â'r angen am ddiffiniad o ymchwil.

Rydym yn cytuno y dylai ymchwil ganolbwyntio ar ganlyniadau lle bo hynny’n briodol.

Byddwn yn ystyried a ddylid cynnwys ‘arloesi’ yma neu mewn mannau eraill yn y dyheadau.

## Dyhead 19: Mae’r sector diwylliant yng Nghymru yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli, gyda gweithlu proffesiynol a medrus

**C26: A ddylai’r dyhead hwn fod yn un o’n Blaenoriaethau?**




Roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn cytuno â Dyhead 19. Roedd 22% yn ansicr neu’n anghytuno.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Ystyriwyd bod y dyhead hwn yn un o’r dyheadau mwyaf heriol a dadleuol o bosibl.
- Roedd yr ymatebion yn mynegi pryder ynghylch effaith lleihau’r gyllideb ar swyddi a chyfleoedd cyflogaeth yn y sector. Dywedoch chi wrthym fod swyddi yn y sector diwylliant yng Nghymru yn brin o adnoddau, yn dymhorol ac yn ansicr. Roedd yr adborth o’r gweithdai ymgynghori yn cynnwys sylwadau am gyflogau isel yn y sector amgueddfeydd a gorddibyniaeth ar wirfoddolwyr. Roedd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai hefyd yn myfyrio ar orddibyniaeth ar arian grant i dalu am gostau craidd.
- Roedd ychydig o ymatebion yn cyfeirio at golli staff arbenigol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae angen gwella cyflogau ac amodau gwaith er mwyn cadw gweithwyr proffesiynol medrus yn y sector.

Gwirfoddolwyr:

- Mae'r sector diwylliant yn dibynnu'n drwm ar wirfoddolwyr, gyda rhai sefydliadau llai yn dibynnu'n llwyr ar staff sy'n gwirfoddoli. Awgrymodd un ymateb y gellid rhannu'r dyhead yn ddau ddyhead penodol, gan nodi bod y camau gweithredu sy'n ofynnol i gefnogi gwirfoddolwyr yn wahanol i anghenion y gweithlu proffesiynol.
- Mae gan wirfoddolwyr ymroddedig brofiad, gwybodaeth ac arbenigedd amhrisiadwy y mae angen eu gwerthfawrogi, eu cydnabod a'u parchu. Mae gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod wedi gorflino ac maent yn wynebu rhwystrau i symud ymlaen drwy'r amser. Mae recriwtio, hyfforddi a chadw gwirfoddolwyr yn hanfodol.
- Mae angen gwerthfawrogi a chefnogi gwirfoddolwyr yn well. Ledled Cymru, mae pobl leol yn gofalu am asedau diwylliannol/treftadaeth pwysig. Nid yw hyn yn cael ei werthfawrogi bob amser, ac nid yw'r heriau rheoleiddiol ac ymarferol sy'n wynebu gwirfoddolwyr bob amser yn cael eu deall.
- Ni ddylai gwirfoddolwyr fod yn disodli gweithwyr proffesiynol profiadol na rolau medrus a sicr.

Gweithwyr Llawrydd:

- Mae gwaith llawrydd yn ansicr, yn aml ar gyflog isel, heb fawr ddim hawliau cyflogaeth, os o gwbl.
- Mae gweithwyr llawrydd yn aml yn gweithio ar draws ffurfiau celf ac ar draws is-sectorau diwylliant, yn amrywio o weithgarwch cymunedol ar lawr gwlad i ddiwylliant uchel 'oherwydd ei fod yn un ecoleg'.
- Mae gweithwyr llawrydd yn cael trafferth gyda'r syniad bod eu llwybr gyrfa yn anymarferol ac yn anghynaliadwy, sy'n arwain at lawer yn gadael y diwydiant.
- Mae nifer fawr o weithwyr llawrydd yn profi straen a phroblemau iechyd meddwl.
- Mae gweithwyr llawrydd a gweithwyr dros dro yn aml yn ei chael yn anodd cael gafael ar gyfleoedd dysgu a datblygu.
- Yn aml, disgwylir i weithwyr llawrydd weithio'n ddi-dâl neu ar gyflog isel iawn, yn enwedig ar ddechrau eu gyrfa, a gall hyn greu problemau, yn arbennig i'r rheini o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Sgiliau:

- Mae angen buddsoddi mewn datblygu sgiliau arbenigol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y sector y staff cymwys a phroffesiynol angenrheidiol. Mae colli staff sydd â gwybodaeth arbenigol yn cael effaith niweidiol barhaol ar gynaliadwyedd y sector.
- Mae'n dal yn anodd recriwtio a chadw staff sydd â'r sgiliau priodol, yn enwedig mewn atyniadau treftadaeth.
- Mae angen adnoddau i hyfforddi prentisiaid ac uwchsgilio'r rheini sydd eisoes yn y sector.
- Mae angen rhaglenni hyfforddi penodol sy'n canolbwyntio ar sgiliau, ochr yn ochr â datblygu safonau proffesiynol.
- Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried hyfforddi a meithrin gallu grwpiau ar lawr gwlad.

Arallgyfeirio'r gweithlu:

- Nododd adborth mewn gweithdy anfodlonrwydd ynghylch staff yn cael eu penodi ar sail cyflawniadau academaidd yn unig, gan ychwanegu bod angen gwerthfawrogi profiad bywyd ac ystyried gwahanol lwybrau at gyflogaeth.
- Dylid cael strategaethau i gefnogi a gwella cyflogaeth i bobl anabl yn y sector.
- Mae diwylliant yn aml yn cael ei ystyried yn yrfa 'alwedigaethol' lle mae cyflogau'n hanesyddol isel, sydd i bob pwrpas yn cadw'r rolau hyn i'r rheini sydd â sicrwydd ariannol o fannau eraill. Mae hyn yn atal diwylliant yng Nghymru rhag bod yn gynhwysol ac yn amrywiol.
- Mae diffyg amrywiaeth yn y gweithlu diwylliannol hefyd, yn enwedig ar lefel arweinyddiaeth.

Llwybrau gyrfa:

- Mae angen mynd i'r afael â llwybrau gyrfa, taliadau a chadw'r gweithlu yn yr hirdymor.
- Mae gweithlu sefydlog yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y sector, gan ei fod yn caniatáu ar gyfer datblygu arbenigedd a pharhad gwasanaeth o ansawdd uchel i'r cyhoedd.

Arall:

- Byddai un ymateb yn hoffi gweld arbenigedd llywodraethu a llywodraethu da yn cael ei wreiddio yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu, gydag un arall yn canolbwyntio ar yr angen i wreiddio sgiliau sy'n gysylltiedig â datblygu busnes.


**EIN HYMATEB:**

Rydym yn gwerthfawrogi'r staff, yr arweinwyr a'r gwirfoddolwyr sy'n aelodau hanfodol o'r sector diwylliant yng Nghymru.

Rydym wedi nodi'r pryderon a godwyd mewn ymateb i'r dyhead hwn. Nodwyd llawer o'r materion hyn yn y naratif drafft a oedd yn cyd-fynd â'r dyhead hwn.

## Dyhead 20: Mae'r sector diwylliant yn dangos arweinyddiaeth a chydweithio yn ei ddulliau gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy, meithrin cadernid, a mynd i'r afael â phob agwedd ar argyfyngau hinsawdd a natur

**C27: A ddylai'r dyhead hwn fod yn un o'n Blaenoriaethau?**




Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â Dyhead 20. Roedd 24% yn ansicr neu'n anghytuno.

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roedd yr ymatebion yn croesawu'r dyhead hwn fel un o themâu craidd y Blaenoriaethau, gan gydnabod bod yn rhaid iddo fod yn faes ffocws allweddol i'r sector, ond gan nodi hefyd bod hwn yn ddyhead arall a allai fod yn heriol i'r sector diwylliant.
- Mae angen cydnabod y cyfraniad ehangach sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae'r sector diwylliant yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ysbrydoli a chreu newid. Awgrymodd ychydig o ymatebion y dylai'r dyhead hwn ymddangos yn gynharach yn y ddogfen i dynnu sylw at yr angen dybryd am weithredu yn y maes hwn. I'r gwrthwyneb, soniodd un ymateb am y pwysau anghymesur posibl ar y sector diwylliant i weithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur.
- Mae angen i sefydliadau'r sector diwylliant ddangos arweiniad o ran rheoli eu tir a'u hadeiladau mewn modd cynaliadwy, a sicrhau bod arferion cynaliadwy wedi'u gwreiddio yn eu gwaith.
- Roedd y geiriau "pob agwedd" yn y dyhead yn peri dryswch, gydag ychydig o ymatebion yn mynegi pryder am ehangder y gweithgarwch sydd ei angen a'r diffyg adnoddau ac arbenigedd yn y sector i ateb yr her hon.
- Nododd un ymateb y gellid ystyried bod y pennawd cyffredinol "mynd i'r afael â phob agwedd ar argyfyngau hinsawdd a natur" yn ymwneud ag addasu i'r hinsawdd, a byddent yn croesawu cyfeiriad penodol at addasu i'r hinsawdd yng ngeiriad y dyhead.
- Roedd ychydig o ymatebion yn canolbwyntio ar yr angen am gyllid i gefnogi'r dyhead hwn.
- Nododd yr ymatebion yr angen i rannu arferion da presennol.
- Roedd ychydig o ymatebion yn canolbwyntio ar adeiladau'r sector diwylliant a rôl cynllunio. Mae angen i adeiladau gael eu hailddatblygu'n ofalus i fod yn fannau diwylliannol cadarn a chynaliadwy. Mae llawer yn awyddus i ddatgarboneiddio eu hadeiladau ond o'r farn nad oes digon o gyllid cyfalaf a bod y system gynllunio yn gallu bod yn broblem.

- Roedd un ymateb yn tynnu sylw at yr angen am fynediad at wybodaeth, gan nodi bod angen i'r ymateb i newidiadau amgylcheddol fod yn seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy.

**EIN HYMATEB:**

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r dyhead ond yn nodi'r pryderon ynghylch ei graddfa a'i chwmpas. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r pryderon hyn yng ngeiriad y dyhead.

## Dyheadau Coll (Blaenoriaeth 3)

**C28: A oes unrhyw ddyheadau nad ydym wedi eu nodi a allai gefnogi'r flaenoriaeth hon ymhellach?**

Roedd llawer o'r ymatebion yn gorgyffwrdd â'r sylwadau a gafwyd yn erbyn y dyheadau presennol sydd wedi cael eu hadlewyrchu'n gynharach yn y ddogfen hon.

Roedd tri ymateb wedi codi un mater newydd, gan nodi na all diwylliant fod yn gydnerth ac yn gynaliadwy heb elfen o warchodaeth statudol/cyfreithiol.

**EIN HYMATEB:**

Rydym wedi nodi'r sylwadau am warchodaeth statudol ar gyfer diwylliant.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cynnwys nod statudol o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' ac mae gan wasanaethau llyfrgell statws cyfreithiol yn barod.

Gellir ystyried opsiynau ar gyfer gwella gwarchodaeth statudol gwasanaethau diwylliannol yng Nghymru ymhellach ar amser priodol.

## Sylwadau Pellach (Blaenoriaeth 3)

**C29: Defnyddiwch y blwch hwn i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach sydd gennych ynghylch Blaenoriaeth 3: Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy. Os mai "na ddylai/nac oes" oedd eich ateb i unrhyw gwestiwn yn yr adran hon, esboniwch pam yma.**

Cafwyd ychydig o sylwadau ac awgrymiadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ond nid oedd unrhyw themâu amlwg yn codi dro ar ôl tro. Ar y cyfan, roedd sylwadau'n cyfeirio at feysydd o ddiddordeb sy'n cael sylw'n mewn man arall yn y blaenoriaethau drafft a'r holiadur ymgynghori.

## Cwestiynau ychwanegol

**C30: Yn eich barn chi, sut byddai'r Blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Diwylliant yn debyg o effeithio ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl bod yna gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

**C31: Yn eich barn chi, a allai'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant gael eu ffurfio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu ar liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o'r farn y byddai'r Blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Diwylliant yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac yn cefnogi dull gweithredu dwyieithog, gan eirioli dros drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn rhaglenni diwylliannol.
- Ni ddylid trin ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar wahân, ond eu cynnwys fel ystyriaethau canolog ar draws pob sector.
- Gall costau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd fod yn rhwystr i rai sefydliadau, a gall gwasanaeth cyfieithu canolog wella hygyrchedd yn hynny o beth.
- Dylai'r Gymraeg fod yn hygyrch i gymunedau di-Gymraeg, ac ni ddylid trin pobl ddi-Gymraeg yn llai ffafriol na siaradwyr Cymraeg.
- Mae'r Gymraeg yn rhan o'n hunaniaeth ddiwylliannol yng Nghymru.

**EIN HYMATEB:**
Mae'r ymatebion i gwestiynau 30 a 31 ar effeithiau'r Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant ar y Gymraeg wedi cael eu nodi. Byddant yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig, a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn derfynol y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

**C32: Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi:**

**Beth ddywedoch chi wrthym ni:**

- Mae mentrau diwylliannol ar lawr gwlad yn bwysig; gan y gallent fod yn rhai o'r brif ffyrdd y mae cymunedau'n ymgysylltu â diwylliant Cymru.
- Mae pwysau ariannol sydd ar sefydliadau diwylliannol o bob math a phob maint.
- Byddai cysylltu gwahanol sectorau a sicrhau bod eu strategaethau'n cyd-fynd â'i gilydd yn fuddiol.

- Mae ymchwil yn dangos bod y sector Diwylliant yn y DU wedi tyfu ar gyfradd uwch na'r economi yn gyffredinol dros y deng mlynedd diwethaf, ac mae ganddo gyfraniadau pwysig i'w gwneud nid yn unig yn economaidd, ond hefyd ar gyfer llesiant, iechyd ac addysg.
- Mae cefnogaeth am gynlluniau clir i gefnogi'r blaenoriaethau arfaethedig.

**EIN HYMATEB:**

Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ategu'r pwyntiau allweddol a godwyd o dan Ddyheadau a Blaenoriaethau penodol.

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn a chwestiynau eraill yn berthnasol i'r Asesiad Effaith Integredig. Byddwn yn sicrhau bod yr ymatebion i gwestiynau 30, 31 a 32 yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Integredig, a fydd yn cael ei fireinio a'i ddatblygu ochr yn ochr â fersiwn derfynol y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

## Y Camau Nesaf

Ar ôl gwerthuso'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd fersiynau drafft y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a'r Asesiad Effaith Integredig yn cael eu hadolygu a'u diweddaru.

Bydd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, gan ymgynghori â chydweithwyr yn y Cabinet, yn ystyried ac yn cyhoeddi fersiynau terfynol o'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig maes o law. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd yng ngwanwyn 2025.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnig adolygu'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn 2026. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn seiliedig ar y Rhaglen Lywodraethu newydd a'r Adolygiad o Wariant.

Byddem nawr yn diweddaru'r Blaenoriaethau a'r Asesiad Effaith Integredig, gan ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad a blaenoriaethau newydd y Prif Weinidog.

Byddem yn adnabod ardaloedd i ganolbwyntio arnynt, a gweithredoedd i flaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/2026.

Rydym eisoes wedi ymrwymo i gadw'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant dan arolwg, gyda'r arolwg cyntaf yn 2026. Argymhellwn i gadw'r fersiwn terfynol o'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn ddogfen fyw, bydd yn tanategu ein cefnogaeth ar gyfer y sector diwylliant ac yn gosod fframwaith strategol ar gyfer rhanddeiliaid.

# ATODIAD A – Ymatebwyr

Roedd 203 o ymatebwyr unigol a 14 sefydliad wedi gofyn am gael aros yn ddienw.

## Unigolion

Alexander, Simon
ap Llwyd Dafydd, Sion
ap Llwyd, Pedr
Baarsma, Mattie
Banks, Yr Athro Frank
Batten, Rachel
Baxter, David
Bettinson, Phil
Branson, Clive
Clewes, Beth
Collier, Laurence
Corbridge, Michael
Daniels, Jane
Davies, Mark
Donovan, Linda
Everett, Joanne
Gilliland, Katie
Gordon, Mari
Graves, Dyfan
Griffiths, B
Gwalchmai, Dr Ben
Gwynant, Alan
Hinde, Ann-Marie
Hiscocks, Angela
Houston, Ruth
Howells, Phillip
Hytch, David
Jeynes, Gemma
John, Colin
Jones, Angela
Jones, Douglas
Jones, Dr Alan
Lazaridi, Sofia
Lloyd, David RJ
Lunn, Jennifer
Marshall, Huw
May, Sarah
Morgain, Shân
Murphy, Yvonne
Norman, Michael
Parry, Gareth

Peacock, Ann
Pettit, John
Powell, Stuart
Richards, Kenneth
Robson, John Stephen
Rowlands, John
Shine, Julian
Smith, Dr Jeff
Smith, Sam
Stockley, Derec
Sutcliffe, Howard
Taylor-Davies, Ruth
Templar, Neil
Thomas, Cheryl
Thoms, Rhian
Williams, David
Williams, Jac
Wilson, Jonathan

## Sefydliadau

Amgueddfa Cymru
Anabledd Dysgu Cymru
Art Fund
British Council
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Canolfan Dreftadaeth Gŵyr
Canolfan yr Economi Greadigol, Prifysgol Caerdydd
Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
Chwarae Cymru
Chwaraeon Cymru
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
CofGar (Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin)
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru
Comet Security Group Ltd
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Community Leisure UK
Conffederasiwn GIG Cymru
Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
Creative Lives / Bywydau Creadigol
Creu Cymru
Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
Cydweithrediad ATLIS (Mynediad i Lyfrgelloedd ym Mae Abertawe)

Cyfeillion Parc Jersey
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru
Cymdeithas Côr Meibion Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru
Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA)
Cynghrair Celfyddydau a Dyniaethau Cymru (WAHA)
Cyngor Archaeoleg Prydain
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn
Cyngres yr Undebau Llafur Cymru
Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr
Cytûn
Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Equity
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Fforwm Cymru Gyfan Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
GEM Cymru
Glandŵr Cymru
Grŵp Treftadaeth Cymru
Heneb - Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru
Heritage Trust Network
Historic Buildings and Places (AMS)
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Libraries Connected
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Mentrau Iaith Cymru
Mid Wales Opera
Musicians' Union
Partneriaeth Camlas Trefaldwyn

PCS Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Plant yng Nghymru
Plas Glyn y Weddw
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Pupils 2 Parliament
Pwyllgor Diwylliant Senedd Cymru
Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru (WAHWN)
Sefydliad Cadwraeth
Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol
Sefydliad Cyfarthfa
Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth Cymru
Sporting Heritage
Studio Response
Tai Hanesyddol Cymru
The Wallich
Theatr Cymru
Tirweddau Cymru
Trac Cymru
Trafnidiaeth Cymru
Treftadaeth MonLife, Cyngor Sir Fynwy
Un Llais Cymru
Undeb Prospect
Urdd Gobaith Cymru
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Ymddiriedolaeth y Theatrau
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau